Capita

## Mae eich asesiad PIP yng Nghanolfan Gymunedol Gwelfor, Caergybi

**Cyfeiriad**

Canolfan Gymunedol
Gwelfor,
Ffordd Tudur,
Caergybi,
LL65 2DH



**Oriau Agor**

Dydd Llun – Dydd Gwener 09:00 - 17:00

Mae map a gwybodaeth ychwanegol ar y dudalen nesaf

---

**Pwysig: canllaw yn unig yw'r cyfarwyddiadau, gwiriwch eich llwybr cyn teithio**

**Mewn car**

Dilynwch yr A55 ar draws Ynys Môn i Gaergybi. Pan fyddwch yn cyrraedd Caergybi, dilynwch yr arwyddion am y Porthladd.

Ar y gylchfan ger y fynedfa i'r Porthladd, trowch i'r dde ac yna yn syth i'r chwith ar Turkey Shore Road. Dilynwch y ffordd hon am tua chwarter milltir, yna trowch i'r dde ar Ffordd Tudur (y 4ydd troad ar y dde). Dilynwch y ffordd hon ac yna cymryd y troad cyntaf i'r chwith i faes parcio Gwelfor.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni ar 0808 178 8115**

**Parcio**

Mae maes parcio ar gael yn y Ganolfan Gymunedol, ac mae rhywfaint o le parcio i bobl anabl union y tu allan i'r fynedfa.

**Ar y bws**

Gallwch ddal bws 24A o Victoria Road, a bydd yn stopio y tu allan i'r Ganolfan Gymunedol. Dylai gymryd tua 5 munud i chi.

**Ar y trên**

Gorsaf Caergybi yw'r orsaf drenau agosaf. Bydd yn cymryd tua 15 munud i chi gerdded o'r orsaf honno i'r Ganolfan Gymunedol.

Ewch allan o'r orsaf a cherdded tuag at London Road. Trowch i'r chwith a cherdded ar hyd London Road, a throi i'r chwith eto ar yr A55 gyferbyn â Lidl. Ewch yn eich blaen i lawr yr A55 nes byddwch yn cyrraedd cylchfan.

Trowch i'r dde wrth ymyl The Edinburgh Castle a chroesi ar Turkey Shore Road. Dilynwch y ffordd hon yr holl ffordd a throi i'r dde am Ffordd Tudor. Ewch i lawr y ffordd hon a bydd y Ganolfan Gymunedol ar y chwith.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni ar 0808 178 8115**

Capita

# Bydd eich asesiad PIP yng Nghanolfan Gymunedol Gwelfor, Caergybi




Data'r map ©2022 Google

---

**Pan fyddwch chi'n cyrraedd**

**Cofiwch ddod â dau fath o ID gyda chi.**

Mae'r drws wedi cau fel arfer, a gall fod yn anodd ei agor. Canwch y gloch os bydd angen help arnoch chi.

Gall swyddog diogelwch eich helpu gyda'r drws.

Rhowch wybod i staff y dderbynfa eich bod wedi cyrraedd, ac arhoswch yn y man aros.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni ar 0808 178 8115**

**Gwybodaeth Ddefnyddiol**

Mae mynediad heb risiau ar gael ar flaen ac ar ochr yr adeilad, ac mae digon o le parcio ger y drws.

Mae’r ystafell asesu tua 20 metr i lawr y coridor.

Mae toiled i bobl anabl y tu allan i’r ystafell asesu.

**Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â ni ar 0808 178 8115**